Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynllun Gweithredol

## 2025-26

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**


# Cyflwyniad

Mae'n dda gennym gyflwyno ein Cynllun Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026. Mae'r ddogfen hon yn eistedd ochr yn ochr â'n Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030, sy'n amlinellu ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

**Ein Gweledigaeth:**
Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn nodi'r gweithgarwch yr ydym yn mynd i'w flaenoriaethu yn y flwyddyn ariannol hon i wneud cynnydd tuag at yr ymrwymiadau sefydlu a'r ymrwymiadau twf yn ein Cynllun Strategol, gan ein sefydlu ein hunain ymhellach a pharhau i bontio'n esmwyth o drefniadau blaenorol.

Mae'r holl weithgareddau a gyflwynir yn y Cynllun hwn wedi cael eu datblygu gyda'n nodau strategol (ein hamcanion llesiant) a'n huchelgeisiau hirdymor mewn golwg:



Ar draws y Cynllun Gweithredol fe welwch weithgareddau sy’n ategu ac yn ymdrin â themâu allweddol megis cydraddoldeb, y Gymraeg, cyfranogiad a phrofiad dysgwyr, yn ogystal â’r rhai sy’n ein galluogi i gyflawni ein rôl dyngedfennol o ran cyllido a rheoleiddio.

Byddwn yn casglu ac yn defnyddio data sylfaenol cadarn i fynd ati’n barhaus i adolygu’r cynnydd tuag at ein nodau strategol. Byddwn hefyd yn defnyddio’r data yma i fonitro sut y mae’r sector addysg drydyddol ac ymchwil yn cyfrannu at gerrig milltir cenedlaethol Cymru.

Rydym wedi blaenoriaethu gweithgareddau i gyflawni ein hymrwymiadau sefydlu – gan bennu gorwel dwy flynedd ar gyfer gwneud cynnydd sylweddol. Ein nod yw gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein hymrwymiadau twf dros orwel pum mlynedd.

Fe ddatblygwyd, ac fe gyflawnir, y gweithgareddau yn y Cynllun hwn hefyd yn unol â’n gwerthoedd sefydliadol, sef:

**Ein Gwerthoedd:**

- Dysgu
- Cydweithio
- Cynnwys pawb
- Rhagori

Mae amrywiaeth ein dysgwyr yn un o gryfderau ein sector. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ar ran yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig ac anghenion dysgu ychwanegol. Lle’r ydym yn cyfeirio at ddysgwyr drwy’r Cynllun hwn, byddwn yn ystyried anghenion a buddiannau’r ystod eang o ddysgwyr yn y system drydyddol.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad yr ydym wedi’i gael â rhanddeiliaid ledled Cymru wrth ddatblygu’r Cynllun Gweithredol hwn ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio gyda’r sector ar y gweithgarwch yr ydym wedi’i amlinellu. Gyda’n gilydd gallwn gyflawni system addysg drydyddol ac ymchwil gydnerth sy’n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a’r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu’n ganolog iddi.

# Nod Sefydlu

**Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo.**

## *Ymrwymiadau sefydlu*

| Byddwn yn adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gwreiddio ar draws Medr, gan gefnogi datblygiad a llesiant ein gweithlu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn rhoi proses asesu effaith integredig newydd ar waith. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn diweddaru ac yn cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n hundeb llafur cydnabyddedig (PCS, yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol) i gynnwys ein gweithlu mewn materion sy'n effeithio arnynt a'u bywydau gwaith. Byddwn yn cydgynhyrchu Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol yn 2025 fel arwydd clir o'n bwriad i wreiddio partneriaeth gymdeithasol ystyrlon yn ein diwylliant, ein harferion gweithredu a'n ffyrdd o weithio yn Medr. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynnull ein Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol. | Ebrill 2025 |
| Byddwn yn cydgynhyrchu Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol gyda PCS. | Medi 2025 |

| Byddwn yn datblygu system reoleiddio gymesur, seiliedig-ar-risg erbyn 1 Awst 2026. Bydd hon yn cael ei thanategu gan gofrestr addysg uwch a thelerau ac amodau cyllid ar gyfer rhannau eraill o'r sector, gan barchu awtonomiaeth sefydliadol a rhyddid academaidd. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Gan gydnabod yr hinsawdd ariannol anodd a wynebir gan y sector addysg drydyddol, byddwn yn monitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr addysg drydyddol, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar faterion ar lefel darparwyr a'r sector. | Yn barhaus |
| Byddwn, trwy ein prosesau sicrwydd, yn asesu risgiau sefydliadol a risgiau yn y sector, gan ddarparu gwybodaeth gyson ar gyfer Llywodraeth Cymru. | Yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn monitro cydymffurfedd ag ymrwymiadau mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. | Yn barhaus |
| Byddwn yn rhoi system reoleiddio seiliedig-ar-risg newydd ar waith ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar gyrraedd ein nodau strategol ac yn cael ei thanategu gan amodau cofrestru a chyllid. | Awst 2026 |
| Byddwn yn cynnal ein hymgynghoriad cyntaf ar amodau cofrestru a chyllid gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ansawdd, cynaliadwyedd ariannol a llywodraethu. | Mai 2025 |
| Byddwn yn cynnal ein hail ymgynghoriad ar amodau cofrestru a chyllid gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, lles myfyrwyr a staff, y Gymraeg ac ymgysylltu â dysgwyr. | Hydref 2025 |
| Byddwn yn agor ceisiadau i'r gofrestr addysg uwch newydd. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn sefydlu data sylfaenol i ddarparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer ein prosesau cynllunio a phenderfynu ni ein hunain ac i oleuo polisi'r Llywodraeth. Ar sail data, a chan weithio gyda rhanddeiliaid, byddwn yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella, sy'n gysylltiedig â'r cerrig milltir cenedlaethol. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn adolygu ein data a'n mesurau presennol, ac yn adnabod gofynion dadansoddi newydd, i ddiwallu anghenion mewnol ac anghenion rhanddeiliaid. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn cwmpasu ac yn dechrau cyflawni swyddogaeth ymchwil gymdeithasol ar gyfer Medr. | Rhagfyr 2025 |
| Ar sail data, a chan weithio gyda rhanddeiliaid, byddwn yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau mewn deilliannau, sy'n gysylltiedig â'r cerrig milltir cenedlaethol. | Yn barhaus |

| Byddwn yn gweithredu fel sefydliad effeithiol. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn rheoli ymarferion caffael, Cymorth Grant, cyllid, a chyllidebau'n effeithiol, gan wneud taliadau'n effeithlon a sicrhau bod rheoli ariannol yn gadarn. | Yn barhaus |
| Byddwn yn cryfhau rheolaethau diogelwch i wella cydnerthedd diogelwch gwybodaeth a lleihau risg i'r eithaf; byddwn yn ennill achrediadau diogelwch i ddarparu sicrwydd ar gyfer rhanddeiliaid. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn datblygu prosesau a datrysiadau i alluogi Gwasanaethau Digidol i fod yn effeithlon ac yn effeithiol. | Yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn datblygu strategaeth a chynlluniau parhad busnes. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn rhoi prosesau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data. | Awst 2025 |
| Byddwn yn ein sefydlu ein hunain fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol, a'r brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth am addysg drydyddol yng Nghymru. | Yn barhaus |
| Byddwn yn darparu adroddiadau seiliedig-ar-risg ar ein gweithgarwch cyflawni gweithredol ar gyfer ein Bwrdd a Gweinidogion yn chwarterol, gan fwydo i mewn i adroddiadau blynyddol statudol. | Gorffennaf 2025 |
| Byddwn yn cyflawni prosesau llywodraethu effeithiol gan weithio gyda'n Bwrdd a'n Pwyllgorau. | Yn barhaus |

### *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn buddsoddi yn ein gweithlu, yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol, gan gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol, gan hybu meddylfryd twf a thrin pawb fel unigolyn. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth ar y cyd am yr holl sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. | Yn barhaus |
| Byddwn yn datblygu arlwy eglur i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol ein staff, gan ymgysylltu â staff a PCS ar anghenion unigol ac anghenion sefydliadol. | Yn barhaus |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaeth Pobl a Diwylliant a chynllun y gweithlu, gan gydweithio'n agos gyda PCS ac ymgysylltu â staff. | Yn barhaus |

| Byddwn yn defnyddio dull seiliedig-ar-risg i fonitro cydymffurfedd â'r system reoleiddio, gan annog darparwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u strategaethau gwella eu hunain. Byddwn yn cymryd camau cymesur i ymyrryd pan fo'n ofynnol. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu fframwaith sicrwydd cymesur a phroses risg darparwyr i fonitro'r modd y mae darparwyr yn cydymffurfio â'r system reoleiddio. | Awst 2026 |

| Byddwn yn adolygu ac yn gwella sut yr ydym yn casglu data gan ddarparwyr i sicrhau bod gennym ddata o ansawdd da i ategu prosesau penderfynu ynghylch rheoleiddio a pholisi ac i leihau baich diangen. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein casgliadau data, neu'r rhai a gynhelir ar ein rhan, gan sicrhau bod gennym y data cadarn y mae ei angen arnom heb greu baich diangen i ddarparwyr. | Yn barhaus |
| Byddwn yn sefydlu trefniadau i ni fod y rheolydd data ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r Casgliad Data Ôl-16. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i fwrw golwg ar drawsnewid data, gan ystyried yr holl ffrydiau o ddata addysg drydyddol a ddefnyddir gan Medr. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn ymgynghori ar system gyllido i gefnogi'r sector addysg drydyddol ac yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn, trwy ymgysylltu parhaus â Llywodraeth Cymru, yn sicrhau cyllideb Addysg Drydyddol ac Ymchwil Genedlaethol Flynyddol sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Strategol. | Yn barhaus |
| Byddwn yn gwneud gwaith rheoli ariannol a monitro mewn perthynas â'r gyllideb Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithiol ac y gweithredir rheolaethau ariannol cadarn. | Yn barhaus |
| Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar yr egwyddorion cychwynnol ar gyfer ein polisi cyllido. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn cynnal adolygiad a dadansoddiad trylwyr o'r modelau cyllido cyfredol ar gyfer addysg drydyddol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer newid. | Rhagfyr 2026 |

| Byddwn yn cydweithio gyda rhanddeiliaid o bob math. Byddwn yn ymgysylltu'n ystyrlon a, phan fo'n briodol, byddwn yn ymgynghori'n eang ar y gwaith a wnawn. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu strategol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. | Hydref 2025 |

# Nod Strategol 1

## Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

### *Ymrwymiadau sefydlu*

| Byddwn yn sefydlu amodau rheoleiddiol i hybu tegwch a chyfle cyfartal. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, cam-drin a thrais ar sail rhywedd. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu amod cyllid a chofrestru i hybu cyfle cyfartal a thegwch mewn addysg drydyddol, yn ymgynghori arno ac yn ei gyhoeddi, a hwnnw'n dod i rym o fis Awst 2027. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg drydyddol i roi cymorth i gyflawni strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb, gan gynnwys fel y maent yn berthnasol i iechyd meddwl, atal hunanladdiad a hunan-niwed, LHDTC+, rhywedd, anabledd, gwrth-hiliaeth, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac urddas mislif. | Yn barhaus |
| Byddwn yn cyllido ac yn cefnogi gweithgareddau ar draws dysgu gydol oes, gan wella'r modd y cesglir data a rhannu arfer, er budd darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, sgiliau hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn gwerthuso, yn cyllido ac yn monitro'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach i sicrhau ei bod yn cyfrannu'n effeithiol at annog pobl, yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, i bontio i addysg drydyddol a dysgu gydol oes a chyfranogi ynddynt. | Gorffennaf 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i wneud cynnydd tuag at greu Cymru wrth-hiliol a sicrhau amgylcheddau dysgu a gwaith cynhwysol i bawb, ni waeth beth fo'u hunaniaeth. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg drydyddol i gyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: monitro cynnydd darparwyr addysg drydyddol yn erbyn cynlluniau gweithredu a/neu ymrwymiadau yn eu siarteri, a datblygu a chyhoeddi data monitro cydraddoldeb hil. | Gorffennaf 2026 |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg drydyddol i roi cymorth i gyflawni strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb, gan gynnwys fel y maent yn berthnasol i iechyd meddwl, atal hunanladdiad a hunan-niwed, LHDTC+, rhywedd, anabledd, gwrth-hiliaeth, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac urddas mislif. | Yn barhaus |

| Byddwn yn hybu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws y sector i sicrhau bod dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gallu cyrraedd eu potensial gan gael cymorth sy'n hybu annibyniaeth dysgwyr. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Gan gydweithio gyda darparwyr a phartneriaid, byddwn yn mapio prosesau pontio dysgwyr ADY, gan adnabod heriau a chyfleoedd a rhannu arfer. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth o adolygiadau thematig ESTYN o Sgiliau Byw'n Annibynnol i oleuo addasiadau i fanylebau rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn cynnal adolygiad o gyllid ADY mewn AB a Phrentisiaethau i hybu mynediad cyfartal ar gyfer darparwyr a dysgwyr. | Rhagfyr 2025 |

| Byddwn yn sefydlu amodau rheoleiddiol i gefnogi lles dysgwyr a staff, gan adeiladu ar arfer da presennol, gyda hynny'n cael ei gryfhau gan fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu amod cyllid a chofrestru ar gyfer lles staff a myfyrwyr mewn addysg drydyddol, yn ymgynghori arno ac yn ei gyhoeddi. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn cwblhau ac yn cyhoeddi fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant. | Ebrill 2026 |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n datblygu arfer ac yn llywio gwelliant mewn llesiant ac iechyd gan gynnwys cynlluniau iechyd meddwl darparwyr a'r prosiect iechyd meddwl AU/AB. | Mawrth 2026 |

| Byddwn yn sefydlu cod ymgysylltu â dysgwyr fel rhan o'n system reoleiddio. Byddwn yn sicrhau bod gan ddarparwyr weithdrefnau cwynion effeithiol a bod dysgwyr yn ymwybodol ohonynt. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn ymgynghori ar amod cofrestru sy'n sicrhau bod gan ddarparwyr perthnasol weithdrefnau cwynion a'u bod yn gwneud eu dysgwyr yn ymwybodol ohonynt a byddwn yn cyhoeddi'r amod cofrestru hwn, a hwnnw'n dod i rym o fis Awst 2026. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn gweithio gyda dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar y cyd a'i gyhoeddi, a hwnnw'n dod i rym o fis Awst 2026. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn creu fforwm llais y dysgwr i sicrhau bod llais y dysgwr yn ystyriaeth ganolog ym mhrosesau llunio polisi a gwneud penderfyniadau Medr. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu strwythurau cychwynnol i'n galluogi i ystyried lleisiau dysgwyr wrth inni wneud penderfyniadau a chreu polisi, ac yn gweithio gydag UMC Cymru a phartneriaid eraill i gynnal a gwerthuso cynlluniau peilot, gan sefydlu ein Fforwm Llais y Dysgwr. | Mehefin 2026 |
| Byddwn yn cynnal ymarfer cwmpasu gyda dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu'r gofynion ar gyfer arolwg Llais y Dysgwr ar y cyd, ac yn cynnal cynllun peilot cychwynnol gyda'r sectorau addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion. | Awst 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod eu dysgwyr a'u staff yn ymwybodol o'r cyfleoedd i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio'n fyd-eang. Byddwn yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad dysgwyr a staff rhyngwladol i Gymru. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid, byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi map ffordd sy'n nodi sut y byddwn ni, ar draws ehangder ein gweithgareddau, yn gweithio tuag at hybu golwg fyd-eang. | Gorffennaf 2026 |

## *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y system addysg drydyddol yn galluogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion sy'n edrych tuag at allan, sy'n ymgysylltu, gan hybu cyfranogiad mewn gweithgarwch sy'n datblygu cymunedau cydlynus ac yn gwella ein bywyd dinesig a diwylliannol ehangach. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn parhau i roi cymorth i rannu arfer rhwng darparwyr trydyddol trwy ein cefnogaeth barhaus i Rwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â gwreiddio llais y dysgwr yn y broses o lunio gweithgareddau cenhadaeth ddinesig. | Yn barhaus |

| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru, i annog mwy o ddysgwyr cyn-16 i bontio i addysg drydyddol a lleihau cyfran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau AB i adolygu'r canllawiau cyllid pontio cyfredol i sicrhau bod cyllid yn galluogi dysgwyr i fod yn fwy gwybodus a hyderus ynglŷn â'u dewis o ran llwybr addysg drydyddol. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn rhannu ein dadansoddiad o ddarpariaeth addysg drydyddol hanesyddol, gyfredol ac arfaethedig gyda phartneriaid perthnasol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i roi cymorth i roi cyngor gyrfaoedd diduedd. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn cydweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau AB i hybu darpariaeth Prentisiaethau Iau yng Nghymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau manylach i ddarparwyr. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hybu manteision dysgu gydol oes a phennu targedau i gynyddu cyfranogiad, yn enwedig ymhlith y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, a allai wynebu rhwystrau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu sefydliadol i ddysgu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn adolygu ein polisi'n gyson ac, ar sail tystiolaeth a data, gan gynnwys adolygiad Llywodraeth Cymru o Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, byddwn yn rhoi gweithgareddau ar waith i wella darpariaeth Saesneg fel Ail Iaith. | Gorffennaf 2026 |
| Byddwn yn datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol, gan adnabod lefelau cyfranogiad ar draws y sector trydyddol fesul rhanbarth, gan dynnu ar ymchwil gymdeithasol a gweithgarwch ymgysylltu ehangach Medr. | Mehefin 2026 |
| Byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru'n cael eu rhoi ar waith yn esmwyth. | Yn barhaus |
| Byddwn yn ceisio mapio'r ddarpariaeth gyfredol o ran cludiant ar draws addysg drydyddol i adnabod a deall y gwahanol ddulliau a'r effaith ddilynol ar fynediad dysgwr at addysg drydyddol. Byddwn yn rhannu arfer a goblygiadau ariannol gyda Llywodraeth Cymru i ategu polisïau cludiant a chyllidebol ehangach. | Ebrill 2026 |

# Nod Strategol 2

## Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.

### *Ymrwymiadau sefydlu*

| Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr ac yn cynorthwyo ein darparwyr i wneud defnydd effeithiol o dechnolegau sy'n newid a sicrhau bod dysgwyr wedi'u harfogi ar gyfer diwydiannau a ffyrdd o weithio sy'n newid. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynorthwyo ac yn annog darparwyr dysgu i integreiddio technoleg ddigidol yn ddi-dor o fewn darpariaeth; yn rhoi anogaeth i arloesi o ran defnyddio dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog i wella profiad dysgwyr; ac i arfogi eu staff a'u dysgwyr â'r galluoedd a'r hyder digidol i lwyddo mewn dysgu, bywyd a gwaith. | Mawrth 2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn gwella cyflogadwyedd dysgwyr yng Nghymru, gan fonitro effeithiolrwydd gweithgarwch cyfredol a chwmpasu gweithgarwch ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys y Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau AB a'r Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr addysg uwch. | Yn barhaus |

| Byddwn yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i'r blaenoriaethau o ran sgiliau y mae'n eu pennu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i lunio strategaethau sgiliau ar gyfer Cymru a dylanwadu ar ddatblygiadau o ran systemau sgiliau ar lefel y DU. | Yn barhaus |
| Byddwn yn ystyried ymchwil, data a gwybodaeth am y farchnad lafur i gael dealltwriaeth well am anghenion sgiliau penodol ac ardraws Cymru i oleuo ein hymgysylltiad â darparwyr addysg drydyddol, a'n blaenoriaethau cyllido. | Yn barhaus |

| Byddwn yn datblygu cysylltiadau cryf â busnesau, diwydiant, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Cydbwyllgorau Corfforedig a chyflogwyr i ddeall y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer gweithlu cynhyrchiol. Gan weithio gyda Cymwysterau Cymru a phartneriaid eraill, byddwn yn defnyddio’r guddwybodaeth hon i sicrhau bod darpariaeth addysg drydyddol yn ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn sefydlu ac yn adeiladu ar fecanweithiau i ddeall y sgiliau y mae eu hangen yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer gweithlu cynhyrchiol ledled Cymru trwy gydweithio gyda sefydliadau allweddol, gan gynnwys y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a’r Cydbwyllgorau Corfforedig. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn cwmpasu ac yn sefydlu mecanweithiau i’n galluogi i brofi ein dealltwriaeth am anghenion sgiliau Cymru gyda chyflogwyr, busnesau a diwydiant. | Yn barhaus |

| Byddwn yn dylunio darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau ac i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a’r economi. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu polisïau gweithredol sy’n cryfhau’r rhaglen brentisiaethau gyfredol yng Nghymru. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn cryfhau mecanweithiau i sicrhau bod adborth cyflogwyr a dysgwyr yn cael ei ddefnyddio i gryfhau’r rhaglen brentisiaethau gyfredol. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn gweithio gyda diwydiant i gynnal archwiliadau dwfn o’r sector i ddeall sut y gallai darpariaeth bresennol ymateb yn well i anghenion presennol o ran sgiliau, ac yn defnyddio hyn i helpu i gynllunio darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn dechrau rhaglen o waith i adolygu fframweithiau presennol dros gyfnod o 3 blynedd ac yn cyflwyno proses newydd i greu fframweithiau newydd i ateb gofynion diwydiant. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar fanyleb, ac yn dechrau trefniadau comisiynu, ar gyfer rhaglen brentisiaethau newydd a fydd yn dechrau ym mis Awst 2027. | Awst 2027 |

| Byddwn yn annog darparwyr i ddatblygu eu cenhadaeth ddinesig a sut y maent yn rhannu eu gwybodaeth er budd ein cymunedau. Byddwn yn gweithio gyda hwy i benderfynu sut i fesur yr effaith yn effeithiol. |
|---|

| Gweithgaredd | Dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Byddwn yn cynorthwyo Partneriaethau Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth ddinesig ar lefel ranbarthol rhwng darparwyr addysg drydyddol a phartneriaid perthnasol eraill ac yn parhau i hybu cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Yn barhaus |
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector addysg drydyddol a rhanddeiliaid eraill i ddangos effaith eu gweithgareddau cenhadaeth ddinesig, gan gynnwys trwy ddarparu cyllid ar gyfer digwyddiadau arddangos sy'n hyrwyddo Cymru ar lefel y DU ac yn rhyngwladol. | Yn barhaus |

## *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn datblygu system addysg drydyddol sy'n galluogi dysgwyr i ddysgu trwy gydol eu bywydau, gan ysgogi dulliau hyblyg o ran amser, lle, iaith, a chymorth ar gyfer dysgu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynnal ymchwil i archwilio a deall sut y mae trosglwyddo credydau ar draws systemau addysg drydyddol, mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, yn ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr symud trwy'r system. | Rhagfyr 2026 |

| Byddwn yn meithrin cydweithio rhwng darparwyr i greu llwybrau dysgu cydlynus a hyblyg y mae'n hawdd cael mynediad atynt a symud drwyddynt ar unrhyw adeg mewn bywyd. Gan weithio gyda chyflogwyr, byddwn yn cefnogi llwybrau sy'n cyfrannu at Gymru gynaliadwy a chydnerth. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn dadansoddi darpariaeth addysg drydyddol hanesyddol, gyfredol ac arfaethedig i ddechrau deall bylchau a dyblygiad, ac ymatebolrwydd darparwyr i anghenion dysgwyr ac economaidd, gan hefyd roi anogaeth i gydweithio, trwy arfer a rennir. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi cymorth i ddatblygu a gweithredu ei Chanllawiau diwygiedig ynghylch y Cwricwlwm 16-19, gan geisio sicrhau hygyrchedd opsiynau eang ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru. | Mawrth 2026 |

| Byddwn yn cynnal adolygiad o gynllunio, trefnu, hyblygrwydd ac effeithiolrwydd dysgu oedolion yn y gymuned, gan gydnabod manteision cymdeithasol ac economaidd y ddarpariaeth honno. Byddwn yn ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau i fynediad, cyfranogiad a llwyddiant mewn darpariaeth sgiliau hanfodol ac iaith. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y cesglir data'n gyson i'w gwneud yn bosibl mapio darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn gywir ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau AB. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn datblygu dadansoddiad o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned gyfredol ac arfaethedig i ddeall bylchau, dyblygiad a'i hymatebolrwydd i anghenion dysgwyr a deddfwriaethol (adran 94) i gynyddu lefelau llythrennedd, rhifedd a digidol, gan roi anogaeth ar gyfer cydweithio, yn seiliedig ar dystiolaeth trwy arfer a rennir. | Awst 2026 |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i oleuo datblygiad rheoliadau dan adran 94 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. | Tachwedd 2026 |

# Nod Strategol 3

## Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus.

### *Ymrwymiadau sefydlu*

| Fel rhan o'n system reoleiddio, byddwn yn rhoi fframwaith ansawdd cydlynol ar waith sy'n ymatebol i amrywiaeth y sector a'i ddysgwyr ac sydd â ffocws ar brofiad a deilliannau dysgwyr. Byddwn yn cydnabod yr angen am drefniadau sy'n ymatebol i wahanol rannau o'r sector. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru, gan adeiladu ar arbenigedd Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. | Yn barhaus |
| Byddwn yn ymgynghori ar Fframwaith Ansawdd ac yn ei gyhoeddi, gan ystyried fframweithiau arolygu eraill a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, gan weithio mewn partneriaeth gyda chyrff a rheoleiddwyr eraill i osgoi dyblygu. Bydd y Fframwaith Ansawdd yn dod i rym o fis Awst 2026. | Ebrill 2026 |
| Byddwn yn datblygu canllawiau ynghylch cynlluniau diogelu dysgwyr, yn ymgynghori arnynt ac yn eu cwblhau, gan weithio gyda rhanddeiliaid, a hwythau'n dod i rym o fis Awst 2026. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein fframwaith ansawdd yn cyd-fynd â fframweithiau arolygu a rheoleiddio angenrheidiol yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, yn ogystal â safonau rhyngwladol. Byddwn yn lleihau llwyth gwaith i'r eithaf trwy osgoi dyblygu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn ymgynghori ar Fframwaith Ansawdd ac yn ei gyhoeddi, gan ystyried fframweithiau arolygu eraill a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, gan weithio mewn partneriaeth gyda chyrff a rheoleiddwyr eraill i osgoi dyblygu, a hwnnw'n dod i rym o fis Awst 2026. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn mynd ati'n weithredol i hybu partneriaeth gymdeithasol gan gydnabod bod cydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur o fudd i'r ddwy ochr. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gydag undebau llafur addysg a darparwyr addysg drydyddol i rannu arfer mewn cydweithio ag undebau llafur, ac i gyd-ddylunio cynigion ar gyfer cymorth a chanllawiau yn y dyfodol. | Awst 2025 |
| Byddwn yn caffael gwasanaethau i gefnogi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwreiddio partneriaeth gymdeithasol yn y sector addysg drydyddol, gan adeiladu ar gynlluniau peilot addysg bellach blaenorol. | Gorffennaf 2025 |
| Byddwn yn integreiddio ystyriaethau i bartneriaeth gymdeithasol a llwyth gwaith yn llawn fel rhan o waith gan Medr i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a phrosiectau, fel bod ein penderfyniadau'n ystyried effeithiau ar y gweithlu addysg drydyddol. | Rhagfyr 2026 |

| Byddwn yn cydweithio gyda darparwyr wrth iddynt bennu uchelgeisiau ar gyfer gwella'n barhaus ac yn gweithio i hybu arloesi a gwelliant mewn dysgu. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn ceisio adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella'n barhaus trwy ymgynghori ar y fframwaith ansawdd, dadansoddi data ac ystyried deilliannau adolygiadau/arolygiadau. | Ionawr 2026 |
| Byddwn yn rhoi comisiwn i Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i wneud gwaith ar brosesau hunanwerthuso cyffredin ar draws y sector addysg drydyddol i helpu i lywio gwelliant parhaus. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn ymgynghori ar ddangosyddion perfformiad i hybu gwelliant parhaus. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn disgrifio mesurau perfformiad presennol a dangosyddion eraill ac yn adolygu eu priodoldeb i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer gwella'n barhaus. | Rhagfyr 2025 |
| Byddwn yn adnabod gofynion ychwanegol ar gyfer dangosyddion perfformiad i hybu gwelliant parhaus. | Ebrill 2026 |

## *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn cynorthwyo'r gweithlu addysg drydyddol i gael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol ac yn archwilio ffyrdd o rannu arfer gorau, gan estyn addysgeg effeithiol ar draws y sector cyfan. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynnal astudiaeth gwmpasu o ofynion dysgu proffesiynol ar draws y sector addysg drydyddol, gan asesu ble y gall Medr ddarparu gwerth ychwanegol. | Gorffennaf 2026 |
| Byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer rhaglen arwain genedlaethol i'r sector addysg drydyddol ac yn ymgynghori arnynt, gan nodi ble y gall Medr ychwanegu gwerth at yr arlwy gyfredol. | Gorffennaf 2026 |

| Byddwn yn diffinio'r hyn y mae deilliannau rhagorol ar gyfer dysgwyr a darpariaeth o ansawdd da'n ei olygu ym mhob rhan o'r sector, gan gydnabod amrywiaeth dysgwyr ar draws y sector. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth am dystiolaeth sy'n ymwneud â deilliannau dysgwyr a darpariaeth o ansawdd da, gan dynnu ar arbenigedd ar draws Medr. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer deilliannau a phrofiadau dysgwyr, gan gydnabod y bydd mesurau o lwyddiant a dangosyddion perfformiad yn amrywio gydag amgylchiadau dysgwyr, eu hanghenion ac mewn gwahanol rannau o'r sector. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar ddeilliannau dysgwyr a darpariaeth o ansawdd da i oleuo ein hymrwymiad i bennu targedau uchelgeisiol dros amser. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn dadansoddi deilliannau dysgwyr i sicrhau bod dysgu'n cael effaith gadarnhaol ar ddyfodol dysgwyr a byddwn yn mabwysiadu ymyriadau cymesur lle dengys tystiolaeth nad felly y mae hi. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar ddeilliannau dysgwyr a darpariaeth o ansawdd da i oleuo ein hymrwymiad i bennu targedau uchelgeisiol dros amser. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn adolygu sut y mae ein modelau cyllido a chofrestru'n effeithio ar gyflawni dangosyddion perfformiad. Byddwn yn sefydlu ffyrdd o fonitro a gwella perfformiad y sector, gan ymyrryd yn gymesur lle mae perfformiad islaw'r trothwyon y cytunwyd arnynt. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn datblygu fframwaith sicrwydd cymesur a phroses risg darparwyr i fonitro cydymffurfedd darparwyr â'r system reoleiddio. | Awst 2026 |
| Byddwn yn cynnal adolygiad a dadansoddiad trylwyr o'r modelau cyllido addysg drydyddol cyfredol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer newid a'r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r newid. | Rhagfyr 2026 |

# Nod Strategol 4

**Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.**

## *Ymrwymiadau sefydlu*

| Byddwn yn hybu datblygiad amgylcheddau ymchwil â diwylliannau cadarnhaol sy'n ategu uniondeb, amrywiaeth, cynhwysiant, llesiant a pharch, sy'n gallu denu a chadw'r ymchwilwyr ac arloeswyr gorau o bob rhan o'r byd. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn rheoli'r modd y cyflawnir cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC) sy'n rhoi cymorth wedi'i neilltuo i sefydliadau ar gyfer gwella diwylliannau ymchwil cadarnhaol a chynhwysol a chymorth ar gyfer gweithgareddau cydweithredol dros Gymru gyfan. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymchwilwyr, staff sy'n galluogi ymchwil a myfyrwyr ymchwil ôl-radd. | Yn barhaus |
| Byddwn yn gweithio gyda chyrff cyllido eraill y DU ar ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2029, gan gynnwys hybu'r arfer o gynnwys ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg. | Rhagfyr 2029 |

| Byddwn yn cryfhau ein perthnasoedd â chyrff perthnasol sy'n gyfrifol am ymchwil ac arloesi ledled y DU i helpu ein darparwyr i lwyddo i dyfu eu cyfran o gyllid o ffynonellau cyhoeddus a phreifat, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i dyfu'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Innovate UK ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu cyfleoedd cyllido yn y dyfodol ac adolygiadau ar lefel y DU gyfan o'r dirwedd ymchwil ac arloesi. | Yn barhaus |
| Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid Ymchwil o Ansawdd (QR), Ymchwil Ôl-radd (PGR) a Chyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (HERC) i alluogi a chymell sefydliadau yng Nghymru i gynnal eu capasiti ymchwil, datblygu blaenoriaethau strategol a chystadlu'n fwy effeithiol am gyllid ymchwil ac arloesi allanol. | Yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector cyhoeddus, busnesau a diwydiant, i gynorthwyo sefydliadau i gynnal ymchwil sy'n cyd-fynd ag anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. | Yn barhaus |

| Byddwn yn adnabod sut y gallwn ddefnyddio data i fesur a dangos effaith yr ymchwil ac arloesi a gyllidir gennym ac yn adolygu sut yr ydym yn rhannu ein gwybodaeth a'n gwersi a ddysgwyd mewn cymunedau. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu metrigau addas ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru. | Medi 2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, cyrff cyllido'r DU a rhanddeiliaid eraill ar ddatblygu dulliau newydd ar gyfer casglu a chyfleu gwybodaeth am effaith gymdeithasol ac economaidd ehangach gweithgareddau ymchwil ac arloesi, gan gynnwys trwy REF2029. | Yn barhaus |

### *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn hybu gweithgareddau ymchwil ac arloesi sydd â'r potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar fywyd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru a dylanwad byd-eang, gan gynnwys trwy gynyddu i'r eithaf gyfleoedd ar gyfer cydweithio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â chryfderau ein sylfaen ymchwil. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn parhau i ddefnyddio metrigau a data ar effeithiau cymdeithasol ac economaidd i ddyrannu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) gan felly gymell ymddygiadau cadarnhaol a chynyddu i'r eithaf fudd gweithgareddau ymchwil ac arloesi. | Yn barhaus |
| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i hybu cydweithio sy'n galluogi Cymru i gystadlu'n fwy effeithiol am gyllid ymchwil ac arloesi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. | Yn barhaus |

| Byddwn yn hybu diwylliant o arloesi a chyfnewid gwybodaeth drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol er budd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Byddwn yn rhoi anogaeth i gydweithio gyda busnesau, buddsoddwyr ym myd diwydiant a'r Llywodraeth, i gyfrannu at wella cynhyrchiant yn ein heconomi a chysondeb gwell â llif cynaliadwy o sgiliau. |
|---|

| Gweithgaredd | Dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i roi cymorth i gyflawni Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru. | Yn barhaus |
| Byddwn yn archwilio sut i integreiddio goruchwyliaeth Medr ar weithgarwch ymchwil ac arloesi a’i rôl o ran llunio darpariaeth sgiliau i hybu cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach ar draws y sector trydyddol. | Mawrth 2027 |

| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i hybu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd, gan gynnwys cwmnïau deillio a mentrau cymdeithasol, a sefydlir, a gynhelir ac a dyfir yng Nghymru o ganlyniad i wybodaeth a grëwyd yn sector addysg drydyddol Cymru. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn gweithio gyda Research England i hwyluso gwaith gan sefydliadau yng Nghymru i roi argymhellion yr Adolygiad o Gwmnïau Deillio yn y DU ar waith, gan gynnwys parhau i ddefnyddio Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gymell a chefnogi datblygiad busnesau newydd, gan gynnwys cwmnïau deillio a busnesau a ddechreuwyd gan raddedigion. | Mawrth 2026 |

| Byddwn yn annog ymchwilwyr ac arloeswyr i gyfranogi mewn rhaglenni ymchwil cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol, gan sicrhau bod gan Gymru enw am edrych tuag at allan a bod yn lle gwych i wneud ymchwil. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn cynyddu amlygrwydd ymchwil a gynhelir yng Nghymru i gynulleidfaoedd cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol, gan gynnwys cefnogi gweithgareddau partneriaid allweddol. | Yn barhaus |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hybu ymgysylltiad â chyrff cyllido rhyngwladol a datblygu mentrau cydweithredol a rhwydweithiau ymchwil rhyngwladol. | Yn barhaus |

# Nod Strategol 5

## Hybu mwy o ddefnydd o’r Gymraeg, gan gynyddu’r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

### *Ymrwymiadau sefydlu*

| Byddwn yn datblygu a gweithredu Strategaeth y Gymraeg i alluogi Medr i ddod yn weithle dwyieithog lle gall staff, partneriaid a rhanddeiliaid ddefnyddio eu Cymraeg yn naturiol, a lle mae’r Gymraeg wastad yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau polisi. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Cwblhau** |
| Byddwn yn gweithredu Safonau’r Gymraeg fel y bônt yn berthnasol i’n gweithgarwch. | Yn amodol ar ymgynghori |
| Byddwn yn cynnwys ein staff a’n Bwrdd yn ein gwaith i ddatblygu Strategaeth y Gymraeg i gefnogi ein huchelgeisiau i fod yn sefydliad dwyieithog. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cymwysterau Cymru, i ddatblygu a gweithredu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol cyfan. Bydd hyn yn cynyddu ac yn gwella darpariaeth addysg ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg a’r modd y’i hyrwyddir, gan gynyddu cyfranogiad, galluogi llwybrau di-dor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, a rhoi anogaeth i gydweithio. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y sector addysg drydyddol, byddwn yn ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws addysg drydyddol sy’n cyflawni ein hymrwymiad strategol ac yn ei gyhoeddi. | Awst 2026 |
| Byddwn yn ymgynghori ar amod rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gymraeg sy’n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac yn ei gyhoeddi, a hwnnw’n dod i rym yn llawn o fis Awst 2027. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr a phartneriaid i gael dealltwriaeth well am sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg drydyddol, i wella gweithgarwch recriwtio a chadw staff Cymraeg, ac i hybu dysgu proffesiynol fel bod mwy o staff yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn rhoi'r cymhelliad cyfrwng Cymraeg ar waith ar gyfer TAR Addysg Bellach ac yn gwerthuso ei effaith. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cymhellion i greu a chynnal dysgu proffesiynol i ymarferwyr fod yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau dull cydgysylltiedig. | Gorffennaf 2026 |

### *Ymrwymiadau twf*

| Byddwn yn monitro cynnydd o ran cyflawni'r cynllun cenedlaethol, gan gydweithio a gweithredu lle mae angen cefnogi cynnydd. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y sector addysg drydyddol, byddwn yn ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws addysg drydyddol sy'n cyflawni ein hymrwymiad strategol ac yn ei gyhoeddi. | Awst 2026 |
| Byddwn yn ymgynghori ar amod rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac yn ei gyhoeddi, a hwnnw'n dod i rym yn llawn o fis Awst 2027. | Ebrill 2026 |

| Byddwn yn cyflawni ein rôl o fewn Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), yng nghyd-destun y fframwaith sy'n dod i'r amlwg. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Byddwn yn asesu effaith Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar ein nodau strategol. | Mawrth 2026 |

| Byddwn, ar y cyd â phartneriaid, yn hyrwyddo manteision dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynyddu'r galw am hynny fel bod mwy o bobl yn cael eu hannog i gofleidio'r Gymraeg ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy gydol eu bywydau. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y sector addysg drydyddol, byddwn yn ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws addysg drydyddol sy'n cyflawni ein hymrwymiad strategol ac yn ei gyhoeddi. | Awst 2026 |

| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu polisïau sy'n hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil, ac yn annog y gweithlu addysg drydyddol ehangach i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Dyddiad cwblhau** |
| Ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y sector addysg drydyddol, byddwn yn ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws addysg drydyddol sy'n cyflawni ein hymrwymiad strategol ac yn ei gyhoeddi. | Awst 2026 |
| Byddwn yn rhoi'r cymhelliad cyfrwng Cymraeg ar waith ar gyfer TAR Addysg Bellach ac yn gwerthuso ei effaith. | Mawrth 2026 |
| Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cymhellion i greu a chynnal dysgu proffesiynol i ymarferwyr fod yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau dull cydgysylltiedig. | Gorffennaf 2026 |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**